

Cloddiau Cerrig

Ann Garrod

Mae'r craff ei lygaid wedi sylwi ers tro ar gynefin penigamp ar gyfer bywyd gwyllt, sef yr hen gloddiau cerrig sy'n ymestyn ar ar hyd a lled ein gwlad. Nid cerrig moel mohonynt, oherwydd arnynt a rhyngddynt ceir amrywiaeth helaeth o fwsogl, rhedyn a chen sy'n gartref i gyfoeth o greaduriaid.

Adeiladwyd y mwyafrif o'r cloddau yn ystod Rhyfeloedd Napoleon rhwng diwedd y ddeunawfed ganrif a blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ganlyniad i'r deddfau cau tir. Yr uchelwyr, a oedd yn berchen y stadau mawrion, a fu'n gyfrifol am gau'r tiroedd a dileu hen hawliau'r tyddynwyr i gyd-bori anifeiliaid. Mae llawer o'r cloddiau hyn, felly, tua 200 oed ac wedi datblygu'n gynefin difyr i fywyd gwyllt dros y blynyddoedd. Dyma rai enghreifftiau o'r planhigion a'r anifeiliaid a geir ar gloddau:



Rhedyn

Mae ambell fath o redyn yn hoff o'r mortar calchog sydd rhwng cerrig.

- 1 Deuegredynen y Mur**
Asplenium ruta Muraria
- 2 Rhedyn Cefngoch**
Ceterach officinarum
- 3 Gwallt y forwyn**
Asplenium trichomanes

Efallai y bydd Rhedyn y Fagwyr, *Polypodium vulgare*, yn tyfu os oes pridd rhwng y cerrig. O.N. Hen enw am wal yw magwyr.

Cen

Uniad rhwng ffwng a gwymon (*alga*) yw cen. Mae'r ffwng yn rhoi ffurf a siâp i'r cen a'r alga yn cynhyrchu bwyd. Drwy uno fel hyn, gallant ffynnu mewn cynefin anodd. Mae ar y rhan fwyaf ohonynt angen digon o olau dydd. Gwaith anodd yw adnabod y gwahaniaeth rhwng y gwahanol fathau. Maent yn tyfu'n araf iawn - rhwng 0.5mm a 2cm y flwyddyn yn dibynnu ar y rhywogaeth.

Planhigion blodeuol

Ambell waith ceir mieri a gweiriach yn tyfu wrth fôn clawdd neu ar ei ben. Mae'r lorwg, *Hedera helix*, yn dringo i fyny cloddiau ac mae ei ddail o ddau siâp gwahanol. Mae'r planhigion Pupur y Fagwyr, *Sedum acre*, a'r Ddeilen Gron, *Umbilicus rupestris*, yn hoff o'r mortar calchog.

Anifeiliaid bychain

a Malwod

Mae sawl math o falwen yn ymgartrefu o dan gerrig, e.e. *Helix aspera* - malwen yr ardd. Mae rhai mathau'n byw ymhlith gweiriach wrth fôn y clawdd ac eraill yn uwch i fyny.

b Pryfed cop

Mae sawl math o bryf cop yn ymgartrefu mewn cloddiau a defnyddiant dulliau amrywiol i ddal eu bwyd. Mae rhai yn neidio ar eu prae yn ddirydudd, tra mae eraill yn cynhyrchu gwe i'w ddal.



c Gwrachod lludw

Ceir tua deugain o rywogaethau o wrachod lludw yn Mhrydain. Bwyd marw a fwyteir ganddynt bron yn ddieithriad, gan gynnwys llyisiau crin, ffwng marw, bacteria, tail anifeiliaid a chyrff anifeiliaid marw. Fe all y wrachen lludw amddiffyn ei hun i rwy raddau trwy rollo'n belen neu lynnu'n dynn wrth y llawr.

d Morgrug

Mae morgrug yn greaduriaid cymdeithasol sy'n byw mewn nythod mawr. Morgrug coch, *myrmica rubra*, yw'r rhai mwyaf cyffredin ac mae pob nythfa yn cynnwys ychydig gannoedd ohonynt. Maent yn hoff iawn o gig i'w fwyta. Gwelir y morgrug du, *lasius niger*, yn gymylau duon yn yr awyr yn aml tua diwedd Gorffennaf pan maent yn magu adenydd. Triga'r rhain mewn nythod enfawr o dros filiwn o forgrug. Nid ydynt yn hoff o gig ond maent yn hel llyisiau i'w godro.



Anifeiliaid mwy

Mae cloddiau cerrig yn lloches i anifeiliaid eraill, megis y broga, y carlwm, y wenci a llygod. Maent hefyd yn fan cyfarfod pwysig yn aml rhwng coedlannau a chorsydd, mynydd ac iseldir. Ewch ati i ddarganfod popeth a fedrwch amdanynt!

Mae'n bwysig iawn peidio â dinistrio unrhyw gynefin. Pan fyddwch yn codi carreg o'r wal i weld beth sydd oddi tani, mae'n rhaid ei gosod yn ôl yn yr un safle'n union. Os ydych am astudio anifeiliaid bach, beth am osod carreg yn erbyn gwaelod y wal fel bod pryfed yn casglu yn tu ôl iddi?

Gwaith ymarferol - paentio malwod!

Defnyddiwch ychydig o baent olew dinwenwyn i farcio cragen malwen ardd (mewn man cudd fel na all adar ei weld). Edrychwch bod dydd i weld a ydyw'r falwen yn dychwelyd i'r twll gwreiddiol. Oherwydd bod gwahanol fathau o falwod yn byw mewn clawdd, gellwch wneud arbrawf lawer gwaith a chymharu'r gwahanol falwod, neu ddefnyddio gwrachod lludw.



Eich Enw: _____

Enw'r creadur	Lliw paent	Safle gwreiddiol	Safle ar ôl 24 awr	Symudodd i safle newydd	Safle ar ôl 24 awr
<i>Malwen ardd</i>	<i>Oren</i>	<i>Mewn twll tua 1cm o'r llawr</i>	<i>Dychwelodd i'r un twll</i>	<i>30cm i'r chwith</i>	<i>Aeth ar goll</i>

Ceisiwch feddwl am ragor o waith ymarferol y gellwch ei wneud ynglŷn â chloddiau cerrig yn eich ardal.